



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda  
University Health Board

# Newidiadau i rai o'n gwasanaethau gofal iechyd



Hawdd  
ei  
ddarllen

# Hawdd ei ddarllen



Dyma fersiwn hawdd ei ddarllen o rywfaint o wybodaeth.

Mae'n defnyddio geiriau a lluniau haws.



Efallai y bydd rhai pobl eisiau help i'w ddarllen.



Mae rhai geiriau mewn **print trwm** i ddangos eu bod yn bwysig.



Rydyn ni'n esbonio geiriau print trwm os ydyn nhw'n anodd eu deall.

# Beth sydd yn y llyfryn hwn

|                              |    |
|------------------------------|----|
| Ynglŷn â'r llyfryn hwn ..... | 4  |
| Y newidiadau .....           | 5  |
| Yn y dyfodol .....           | 25 |




Beth ydych chi'n ei feddwl am y llyfryn Hawdd Darllen hwn?

Llenwch yr arolwg hwn i ddweud wrthym beth ydych chi'n ei feddwl:  
[www.easy-read-online.co.uk/easy-read-feedback-survey](http://www.easy-read-online.co.uk/easy-read-feedback-survey)

# Ynglŷn â'r llyfryn hwn



Daw'r llyfryn hwn gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.



Rydym yn darparu gwasanaethau gofal iechyd i bobl sy'n byw yn:

- Sir Gaerfyrddin.
- Ceredigion.
- Sir Benfro.



Mae'r llyfryn hwn yn ymwneud â newidiadau yr ydym yn eu gwneud i rai o'n gwasanaethau.

# Y newidiadau



Rydym yn gwneud newidiadau i rai o'n gwasanaethau, sy'n cymryd lle yn ysbytai a chanolfannau gofal iechyd lleol ar draws yr ardal.

Y 4 prif ysbyty yw:

1. Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth.
2. Ysbyty Glangwili yng Nghaerfyrddin.
3. Ysbyty Tywysog Philip yn Llanelli.
4. Ysbyty Llwynhelyg yn Hwlfordd.



# Gwasanaethau gofal critigol



Mae **gwasanaethau gofal critigol** yn trin cleifion sy'n sâl iawn neu a allai farw.

Mae gwasanaethau gofal critigol yn cynnwys:



**Gofal dwys**

- **Unedau Gofal Dwys (ICUs)**, sy'n trin cleifion sy'n wael iawn neu a allai farw.



**Unedau Gofal Uwch**

- **Unedau Gofal Uwch**, sy'n trin cleifion sy'n wael iawn ond nad oes angen cymaint o ofal â chleifion mewn ICUs.

Rydym wedi penderfynu:



- Bydd gan Ysbyty Bronglais, Ysbyty Glangwili ac Ysbyty Llwynhelig Unedau Gofal Dwys o hyd.



- Bydd Uned Gofal Dwys Ysbyty Tywysog Philip yn newid i Uned Gofal Uwch



- Bydd cleifion yn Ysbyty Tywysog Philip sydd angen mynd i Uned Gofal Dwys yn cael eu symud i Ysbyty Glangwili.



- Bydd staff gofal critigol yn cael eu cefnogi i weithio ar draws y 4 ysbyty.

Mae hyn er mwyn iddynt allu rhannu eu sgiliau ar draws y 4 ysbyty.

# Gwasanaethau dermatoleg



Mae **gwasanaethau dermatoleg** yn trin cleifion sydd gyda phroblemau iechyd gyda'u croen, eu gwallt a'u hewinedd.

Rydym wedi penderfynu:



- Bydd gan Ysbyty Tywysog Philip gwasanaethau dermatoleg arbenigol.

Mae **gwasanaethau arbenigol** yn darparu gofal arbenigol ar gyfer mater penodol.



- Bydd gwasanaethau dermatoleg eraill yn cael eu darparu yn:
  - Canolfan Gofal Integredig Aberteifi
  - Ysbyty De Sir Benfro
  - Meddygfeydd lleol

Rydym hefyd wedi penderfynu:



- Bydd gwasanaethau dermatoleg i blant yn cael eu darparu mewn canolfan gofal iechyd newydd.

Canolfan Iechyd Cross Hands fydd enw'r ganolfan gofal iechyd newydd, a bydd yn cael ei hadeiladu yn y dyfodol.



- Dros y 2 i 4 blynedd nesaf, byddwn yn gweld a ellir gwneud rhai **llawdriniaethau** croen bach mewn practisau meddygon teulu.



**Llawdriniaeth** yw pan fydd gweithiwr iechyd proffesiynol yn torri rhan o'ch corff i drwsio rhywbeth o'i le.

# Gwasanaethau llawfeddygaeth gyffredinol frys



Mae **gwasanaethau llawfeddygaeth gyffredinol frys** yn darparu llawdriniaeth stumog i gleifion sydd ei angen ar unwaith.

Rydym wedi penderfynu:



- Darperir llawdriniaeth gyffredinol frys yn Ysbyty Bronglais ac Ysbyty Glangwili.



- Bydd cleifion yn Ysbyty Llwynhelyg sydd angen llawdriniaeth gyffredinol frys yn cael eu symud i Ysbyty Glangwili.

Rydym hefyd wedi penderfynu:



- Bydd staff o Ysbyty Glangwili ac Ysbyty Llwynhelyg yn gweithio gyda'i gilydd fel 1 tîm.



- Bydd **gofal brys yr un diwrnod** yn cael ei ddarparu yn Ysbyty Glangwili ac Ysbyty Llwynhelyg.



**Gofal brys yr un diwrnod** yw pan fydd claf yn cael ei drin ar yr un diwrnod ag y daw i'r ysbyty. Nid oes angen llawdriniaeth ar y rhan fwyaf o bobl.


# Gwasanaethau endosgopi



Mae **gwasanaethau endosgopi** yn defnyddio camerâu bach i edrych y tu mewn i gorff claf i ddod o hyd i broblem iechyd.

Rydym wedi penderfynu:

- Darperir gwasanaethau endosgopi ar gyfer problemau ysgyfaint neu **wroleg** yn Ysbyty Tywysog Philip.



Mae problemau **wroleg** yn faterion sy'n effeithio ar y rhannau o'r corff sy'n gwneud pi-pi, fel y bledren.



- Bydd gwasanaethau endosgopi ar gyfer problemau stumog yn dal i gael eu darparu ym mhob un o'r 4 ysbyty.

Rydym hefyd wedi penderfynu:



- Bydd gwasanaeth wroleg newydd, sy'n cynnwys gwasanaethau endosgopi, yn cael ei sefydlu yn Ysbyty Tywysog Philip.



- Yn y dyfodol, byddwn yn gweithio gyda phobl leol i sefydlu gwasanaeth endosgopi mwy lleol nad yw mewn ysbyty.



- Bydd gan Ysbyty Tywysog Philip ystafell endosgopi ychwanegol, fel y gellir gweld mwy o gleifion.

# Gwasanaethau offthalmoleg



Mae **gwasanaethau offthalmoleg** yn trin clefydau llygaid ac anafiadau llygaid.

Rydym wedi penderfynu:



- Bydd pob un o'r prif wasanaethau offthalmoleg ysbyty yn cael eu dwyn at ei gilydd yn Ysbyty Glangwili.



- Ni fydd Ysbyty Bronglais ac Ysbyty Tywysog Philip yn darparu gwasanaethau offthalmoleg mwyach.

Rydym hefyd wedi penderfynu:



- Bydd Ysbyty Llwynhelyg yn parhau i wneud profion offthalmoleg a rhai triniaethau yr un diwrnod.



- Bydd Ysbyty Dyffryn Aman nawr yn darparu rhai triniaethau ar yr un diwrnod a llawdriniaethau offthalmoleg.



- Yn y dyfodol, bydd gwasanaeth newydd sy'n profi clefydau llygaid yn cael ei sefydlu yng Nghanolfan Gofal Integredig Aberaeron.

Rydym hefyd wedi penderfynu y bydd gwasanaethau offthalmoleg ar gael mewn canolfannau iechyd lleol, gan gynnwys:



- Canolfan Gofal Integredig Aberteifi.
- Clinig Llygaid Ffordd y Gogledd, Aberystwyth.

## Gwasanaethau orthopedig




Mae **gwasanaethau orthopedig** yn trin materion sy'n effeithio ar esgyrn, cymalau, a meinweoedd meddal, fel cyhyrau.



Rydym wedi penderfynu y bydd triniaethau ar yr un diwrnod yn cael eu darparu yn Ysbyty Llwynhelyg.

Rydym hefyd wedi penderfynu:



- Bydd llawdriniaethau lle mae angen i chi aros dros nos yn cael eu darparu yn Ysbyty Tywysog Philip ac Ysbyty Bronglais.



- Bydd Ysbyty Tywysog Philip yn trin cleifion lleol a chleifion o ardaloedd pellach.



- Oherwydd y newidiadau hyn, efallai y bydd angen trin rhai cleifion gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Yn y dyfodol, byddwn yn edrych ar:



- Cynnig cymorth ychwanegol i gleifion ar ôl iddynt gael llawdriniaeth orthopedig.



- Agor gwasanaethau orthopedig am oriau hirach.

## Gwasanaethau radioleg



Mae **gwasanaethau radioleg** yn tynnu lluniau o'r tu mewn i gorff claf i ddod o hyd i glefydau ac anafiadau a'u trin.

Mae gwasanaethau radioleg yn cynnwys pelydr-X.



Bydd gwasanaethau radioleg brys yn parhau i gael eu darparu ym mhob un o'r 4 ysbyty.

Rydym wedi penderfynu:



- Bydd Ysbyty Bronglais yn parhau i ddarparu gwasanaethau radioleg wedi'u cynllunio a'r un diwrnod.


Bydd y gwasanaethau hyn yn rhedeg o ddydd Llun i ddydd Gwener.




- Bydd Ysbyty Tywysog Philip ac Ysbyty Llwynhelyg yn darparu gwasanaethau radioleg wedi'u cynllunio ar gyfer yr un diwrnod.

Bydd y gwasanaethau hyn yn helpu pobl a allai fod â chanser.

Sut bydd hyn yn gweithio:



- Bydd Ysbyty Tywysog Philip ac Ysbyty Llwynhelyg yn darparu gwasanaethau un diwrnod o ddydd Llun i ddydd Gwener.



- Bydd Ysbyty Tywysog Philip ac Ysbyty Llwynhelyg yn darparu gwasanaethau wedi'u cynllunio 7 diwrnod yr wythnos yn ystod y dydd.



- Bydd Ysbyty Glangwili ond yn darparu gwasanaethau radioleg sydd angen i'r claf aros yn yr ysbyty dros nos.




- Bydd gwasanaethau pelydr-X yn cael eu symud o Ysbyty Llanymddyfri ac Ysbyty De Sir Benfro.




Yn y dyfodol, byddwn yn meddwl am adeiladu canolfan sydd ar gyfer gwasanaethau radioleg yn unig.

## Gwasanaethau wroleg

Mae **gwasanaethau wroleg** yn trin:



- Cleifion sydd â phroblemau gyda'r rhannau o'r corff sy'n gwneud pi-pi fel y bledren.



- Dynion sy'n cael problemau gyda'u rhannau preifat, fel eu ceilliau neu'r prostad.



Rydym wedi penderfynu y bydd gwasanaeth wroleg newydd yn cael ei sefydlu yn Ysbyty Tywysog Philip.

Bydd yr holl wasanaethau wroleg sydd ar gyfer canser yma.

Rydym hefyd wedi penderfynu:



- Gwasanaethau endosgopi a gwasanaethau wroleg yn Ysbyty Tywysog Philip bydd yn gweithio gyda'i gilydd.




- Bydd Ysbyty Bronglais ac Ysbyty Llwynhelyg yn parhau i ddarparu rhai gwasanaethau wroleg, fel apwyntiadau wroleg wedi'u cynllunio.



- Bydd Ysbyty Glangwili yn darparu gwasanaethau wroleg frys.

# Gwasanaethau strôc yn y dyfodol



Mae **gwasanaethau strôc** yn trin ac yn cefnogi pobl sydd wedi cael strôc.

Mae **strôc** yn digwydd pan fydd gwaed yn stopio mynd i ran o'ch ymennydd.



Mae gwasanaethau strôc yn dod yn wasanaethau arbenigol yn hytrach na gwasanaethau cyffredinol.



Rydym hefyd am wneud newidiadau i'n gwasanaethau strôc, ond nid ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol eto.



Mae angen i ni siarad â phobl leol eto am ein syniadau newydd yn gyntaf.

Mae rhai newidiadau posibl yn cynnwys:



- Gallai Ysbyty Bronglais ddarparu **gwasanaethau adsefydlu strôc**.

Mae **gwasanaethau adsefydlu strôc** yn helpu cleifion i wella ar ôl cael strôc.



- Gallai Ysbyty Glangwili ddarparu gwasanaethau strôc arbenigol drwy'r dydd a'r nos.



- Byddai ysbytai eraill yn dal i ddarparu rhywfaint o driniaeth strôc cyn symud cleifion i Ysbyty Glangwili ar gyfer gwasanaethau strôc arbenigol.

# Yn y dyfodol

Wrth symud ymlaen, bydd y newidiadau hyn yn golygu:



- Bydd Ysbyty Bronglais yn parhau i wella'r gwahanol wasanaethau y mae'n eu darparu.
- Bydd Ysbyty Glangwili yn canolbwyntio mwy ar ofal iechyd brys a thriniaeth.
- Mae Ysbyty Tywysog Philip yn canolbwyntio mwy ar ofal a thriniaeth wedi'i gynllunio yn ogystal â gweithio'n agos gydag ysbytai eraill ym Mwrdd Iechyd Bae Abertawe.
- Mae Ysbyty Llwynhelig yn canolbwyntio mwy ar ofal a thriniaeth wedi'i gynllunio.

Rydym yn gobeithio y bydd y newidiadau hyn yn gwneud yn siŵr:



- Bod ein gwasanaethau yn ddiogel ac yn rhoi'r gofal gorau.



- Nid oes rhaid i gleifion aros mor hir am driniaeth.



- Mae gan ein gwasanaethau ddigon o staff i wneud yn siŵr bod pawb sydd angen triniaeth yn ei chael.



Rydym yn deall bod ein newidiadau yn golygu y bydd angen i rai cleifion deithio ymhellach i ddefnyddio gwasanaethau.



Byddwn yn parhau i weithio gyda phobl leol i weld beth arall y gallwn ei wneud i sicrhau bod ein gwasanaethau yn diwallu anghenion pawb.

Cynhyrchwyd y llyfryn hawdd ei ddarllen hwn gan [easy-read-online.co.uk](http://easy-read-online.co.uk).

Mae'r llyfryn yn cynnwys delweddau sydd wedi'u trwyddedu gan Shutterstock.